COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR POLISI A CHYLLID, CYNGOR TREF BAE COLWYN, A GYNHALIWYD NOS FERCHER, 14EG RHAGFYR 2011 AM 6.30 P.M. YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, RHIW ROAD, BAE COLWYN

YN BRESENNOL: Cynghorydd Mrs V. Perry (Cadeirydd)
Cynghorwyr C. Hughes, C. Perry, D. Porter, P. Richards.

SWYDDOG YN BRESENNOL: Mrs C. J. Earley, (Clerc)

364/11 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB:

Penderfynwyd derbyn yr ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Maer, y Cynghorydd Mrs M Edwards, a'r Cynghorwyr: P Edwards; Mrs L Lyon; Mrs H Meredith; Mrs A Robinson; Mrs V Smith

365/11 DATGANIADAU O GYSYLLTIAD:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiad, naill ai yn bersonol ac / neu yn fanteisiol a natur unrhyw gysylltiad. Ni ddatgelwyd dim.

Datganodd y Clerc ei chysylltiad ag eitem 4 ar yr agenda, Is-Bwyllgor Staffio, fel aelod o'r staff.

366/11 COFNODION:

Penderfynwyd cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 9fed Tachwedd 2011 a'u llofnodi i fod yn adroddiad cywir.

367/11 IS-BWYLLGORAU:

Cyflwynodd y Clerc Cofnodion yr Is-Bwyllgor Staffio a gynhaliwyd ar 12fed Rhagfyr 2011 a gofynnwyd i'r Aelodau ystyried yr argymhellion canlynol:

a. Cofnod 359/11 – Cylch Gorchwyl
Ystyriodd yr Aelodau Cylch Gorchwyl Drafft yr Is-Bwyllgor Staffio.
Penderfynwyd argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl a welir yn Atodlen 'A' sydd ynghlwm.

b. Cofnod 361/11 - Hyfforddiant i'r Staff ag Aelodau
Ystyriodd yr Aelodau'r cyllid a argymhellwyd gan y Clerc tuag at hyfforddi'r staff ag aelodau'r Cyngor am 2012/13.
Penderfynwyd argymell cyllideb o £1,700 i hyfforddi staff ag aelodau yn 2012/13.

c. Cofnod 362/11 - Polisïau a Gweithdrefnau Cyflogaeth
Ystyriodd yr Aelodau'r argymhelliad i ddiweddaru polisïau / gweithdrefnau yn ymwneud a chyflogaeth i gyd-fynd a fersiynau model diweddaraf a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, er mwyn sicrhau cydymffurfiad gyda deddfwriaeth ddiweddar ac arweiniad ACAS.

Penderfynwyd argymell bod y polisïau / gweithdrefnau model canlynol yn cael eu mabwysiadu gan y Cyngor:

i. ***Polisi Cyfleoedd Cyfartal***
ii. ***Polisi Urddas yn y Gweithle***
iii. ***Dull Gweithredu Disgyblaeth***
iv. ***Dull Gweithredu Cwynion***

ch. Cofnod 363/11 - Cyflogau

Fe nodwyd bod yr Is-Bwyllgor Staffio wedi ystyried y gyllideb ar gyfer costau cyflogau yn 2012/13, gan ystyried unrhyw godiadau cyflog cytundebol sy'n ddyledus a chaniatáu codiad costau byw o hyd at 2% o Ebrill 2011 (yn dilyn yr unfannu o gyflogau am ddwy flynedd, y posibilrwydd o godiad o 1% a gynigiwyd yn ddiweddar i weithwyr y sector cyhoeddus yn 2012, ond sydd eto i'w gymeradwyo).

Cafwyd trafodaeth am y codiadau cytundebol oedd yn ddyledus ac fe gynigodd y Clerc i adael yr ystafell tra bo'r mater yma yn cael ei ystyried. Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau mai cytundebau cytundebol oedd y rhain ac ni ellir eu diystyru.

Penderfynwyd argymell cyllideb o £76,500 am gostau cyflogau'r staff yn 2012/13.

368/11 AWDURDODI TALIADAU:

a) ***Penderfynwyd awdurdodi'r taliadau a wnaed ar ran y Cyngor am y cyfnod 3/11/11 i 7/12/11 yn unol ag Atodlen 'B' sydd ynghlwm.***

b) ***Penderfynwyd derbyn a llofnodi copi o'r datganiad cysoni diweddaraf y banc fel ar 30/11/2011.***

c) Cyflwynwyd ac ystyriwyd copi o'r adroddiad ar Incwm / Gwariant am y cyfnod hyd at 31ain Hydref 2011. Fe nodwyd bod llawer o benawdau cyllidebau yn rhagweld ychydig o orwariant, yn cynnwys costau offer swyddfa a phost.

Penderfynwyd argymell cynyddu'r cyllidebau canlynol allan o Gronfa Gyffredinol yr Arian Wrth Gefn, i adlewyrchu'r lefelau gwariant tebygol lle rhagwelir amrywiadau o £500 neu mwy:

i ***Hyfforddiant: £500 (ni ddyrannwyd cyllideb i hyfforddi Aelodau yn yr Amcangyfrifon)***
ii ***Yswiriant: £1,500, oherwydd y codiad a gymeradwywyd yn gynharach yn y flwyddyn.***
iii ***TG a Meddalwedd Cefnogol: £1,650, ar gyfer costau Cyllid meddalwedd newydd***
iv ***Regalia Trefol: £1,000, ar gyfer trwsio Cadwyn y Maer***
v ***Larwm Dân: £5,000, ar gyfer canfodyddion tôn newydd, man galw a phanel rheoli.***

369/11 AMCANGYFRIFON BLYNYDDOL:

a. Cyflwynodd y Clerc copi o'r Drafft cyntaf o'r Amcangyfrifon am 2012/13 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Ystyriwyd yr amcangyfrifon drafft gan yr aelodau fesul llinell gan ystyried gwybodaeth parthed 2010/11 a 2011/12 ac unrhyw geisiadau cyllidebol penodol a dderbyniwyd oddi wrth Bwyllgorau / Is-Bwyllgorau.

Fe nodwyd bod llawer o'r cyllidebau ar gyfer eleni wedi rhagweld tanwariant ac felly, oherwydd hyn, gellid trosglwyddo £34,250 ymlaen i 2012/13 i leihau unrhyw bwysedd ar ofynion yr archebiant. Felly ni fyddai'n rhaid cynyddu'r archebiant yn 2012/13.

Penderfynwyd cadarnhau'r Amcangyfrifon Drafft a baratowyd gan y Clerc / RFO ac argymell eu bod yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor.

b. Fe nodwyd bod yr Amcangyfrifon Drafft i gael eu cyfeirio atynt yn y Cyngor ar 9fed Ionawr 2012, er mwyn cymeradwyo gofyniad yr archebiant.

c. ***Penderfynwyd argymell y Cyngor i roi awdurdod dirprwyol i'r Pwyllgor hwn i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i benawdau cyllidebau unigol ar ôl ystyried y ceisiadau am grantiau mawr ac unrhyw wybodaeth hwyr arall a all cael effaith ar ofynion y gyllideb.***

ch Yna gofynnwyd i'r aelodau cytuno ar ddyddiad am gyfarfod yn Ionawr i ystyried y ceisiadau am grantiau mawr.

Penderfynwyd cynnal cyfarfod ddydd Llun 9fed Ionawr 2012, yn union ar ôl cyfarfod y Cyngor, er mwyn ystyried unrhyw geisiadau am grantiau mawr a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau sef 31ain Rhagfyr.

370/11 AELODAETH O SLCC:

Penderfynwyd rhoi awdurdod i adnewyddu aelodaeth am 2012 ar gost o £266..

371/11 CRONFA ADNAU'R SECTOR CYHOEDDUS:

Cyflwynodd y Clerc manylion am y gronfa a lansiwyd ym Mai 2011 er mwyn cael cronfa buddsoddi a fyddai'n rhoi diogelwch a hylifedd i fudiadau yn y sector cyhoeddus. Fe nodwyd bod y cynnyrch presennol yn llawer is na'r raddfa a dderbynier o'r buddsoddiadau ym manc y Cyngor.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r manylion am y gronfa.

372/11 SYSTEM TCC NEUADD Y DREF:

Penderfynwyd rhoi awdurdod i newid camera diffygiol gydag un newydd am gost o £223 +TAW.

373/11 PRINTYDD LASER:

Penderfynwyd rhoi awdurdod am y pryniant a wnaed gan y Clerc o brintydd laser newydd i swyddfa'r Ysgrifenyddes am gost o £99.77 (yn cynnwys TAW), yn dilyn methiant y printydd presennol yn ddiweddar.

374/11 LLOCHESI BYSIAU:

Rhoddodd y Clerc adroddiad ar lafar am adolygiad a wnaed yn ddiweddar o'r holl lochesi bysiau yn ardal Bae Colwyn oedd heb refeniw hysbysebu. Fe nodwyd bod y mwyafrif o'r llochesi mewn cyflwr eithaf da, er bod rhai ohonynt angen eu glanhau ac roedd rhai angen panelau newydd a dileu / paentio dros y graffiti. Fe ddynodwyd pedwar mewn cyflwr gwael ac angen gwaith ychwanegol. Roedd y rhain yn cynnwys dau ger Coleg Llandrillo a dau ar Ffordd Abergele, Hen Golwyn, ger Ffordd Highlands. Yn ychwanegol i hyn, roedd angen adleoli un am nad yw bellach ar lwybr bys (Ffordd Llysfaen) ac mae'n rhai symud un hen iawn yn gyfan gwbl am nad yw'n cydymffurfio a'r safonau presennol (Craig View, Llandrillo yn Rhos).

Cyflwynodd y Clerc llythyr gan GBS Conwy yn gofyn am gyfraniad o £250 am bob lloches (cyfanswm o £5,000) yn 2012/13 er mwyn gwneud gwaith trwsio, ail-baentio ag ailwampio'r llochesi, ac yn cynnig gwneud rhywfaint o waith, yn cynnwys glanhau paneli a gosod rhai newydd, cyn gwneud y cyfraniad tuag at gynnal. Fe nodwyd bod darpariaeth yn yr Amcangyfrifon Drafft am 2012/13 pe bai'r Cyngor Tref yn penderfynu symud ymlaen gyda'r gronfa cynnal a chadw. Atgoffwyd yr aelodau gan y Clerc bod cyllideb CBS Conwy ar gyfer cynnal a chadw llochesi, yn gyfyngedig iawn ac os na gytunwyd ar wneud cyfraniad, efallai bydd yn rhaid i'r llochesi gael eu symud ar sail diogelwch.

Cafwyd trafodaeth ar y posibilrwydd o ddefnyddio llochesi fel mannau gwybodaeth cyhoeddus, gyda hysbysebion yn cynhyrchu incwm cyfyngedig i dalu am y costau o gynnal a chadw. Mynegwyd pryder y gallai'r gost o gael unrhyw ganiatâd angenrheidiol i gael hysbysebu yn negyddu unrhyw incwm dichonadwy.

Penderfynwyd:

a. Argymell y Cyngor i ystyried cyfraniad o £5,000 tuag at gynnal a chadw yn 2012/13.

b. Gwahodd Mr Saxby i ddod i gyfarfod o'r Pwyllgor hwn er mwyn trafod y posibilrwydd o ddefnyddio rhai / pob lloches fel mannau gwybodaeth cyhoeddus, er mwyn cynhyrchu ychydig o refeniw hysbysebu

375/11 CBS CONWY / FFORWM CYNGHORAU TREF A CHYMUNED:

a. ***Pendefrynwyd derbyn y rhybudd am y cyfarfod nesaf sydd i'w gynnal ar 24^{ain} Ionawr 2012 am 6.30pm. (Y Maer a'r Clerc i fynychu).***

b. Fe nodwyd bod copi o gofnodion y cyfarfod diwethaf ar gael gan y Clerc ar gais.

c. Cyflwynodd y Clerc llythyr parthed ymgynghori ar Siartr Cymuned Gyfrannol. Fe nodwyd bod y Siartr Drafft i gael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 20^{fed} Rhagfyr ac, os

gaiff ei gymeradwyo, i gyfarfod nesaf y Fforwm, yna i'r Cynghorau unigol am gymeradwyaeth ac i'w arwyddo.

376/11 YMGYNGHORIAD GAN LYWODRAETH CYMRU:

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth:

a. Copi o'r daflen newyddion ymgynghori diwethaf.
b. Rhybudd o gyfarfodydd cyhoeddus i gyflwyno system i dynnu allan o roi organau a meinwe.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r ohebiaeth.

377/11 YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL STADIWM Y MILENIWM:

Cyflwynodd y Clerc gohebiaeth parthed grantiau oedd ar gael ac fe nodwyd mai'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau gan grwpiau lleol yw 19eg Rhagfyr 2011.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r ohebiaeth.

378/11 GRANTIAU'R CYNGOR TREF:

a. Cyflwynodd y Clerc llythyr oddi wrth Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen yn gofyn am gefnogaeth ariannol gan Gynghorau Tref a Chymuned. Cafwyd trafodaeth fer ac fe nodwyd nad oedd y Cyngor wedi rhoi cefnogaeth ariannol o'r blaen gan nad oedd o fudd uniongyrchol i drigolion lleol.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r ohebiaeth.

b. Fe nodwyd bod y canlynol wedi anfon llythyrau o ddiolch am Grantiau PB / Mawr .

i. Bay Gallery
ii Cymdeithas Tai Clwyd (Safle Bws)
iii Y Pentan
iv Siop Cyngor ar Fudd- daliadau
v Home Start

379/11 GOHEBIAETH BRYS:

Gyda chaniatâd y Cadeirydd fe ystyriwyd yr eitemau ychwanegol brys canlynol:

a. Cynllun Corfforedig CBS Conwy:

Cyflwynodd y Clerc llythyr oddi wrth GBS Conwy yn cynnwys adborth o'r gweithdai diweddar. Fe nodwyd y gallai unrhyw aelod nad oedd yn bresennol cyflwyno sylwadau dros y ffôn neu ar-lein erbyn diwedd Rhagfyr.

b. Prosiect Gwreiddiau Cadarn - Rhaglen Hyfforddi 'Dyfodol Gwyrdd':

Cyflwynodd y Clerc gais i enwebu Cynghorwyr (hyd at ddau) i fynychu sesiwn hyfforddi gan Cynnal Cymru ym Mawrth 2012 i helpu Cynghorau Tref a Chymuned i ddeall yn llawn y cysyniad o ddatblygiad cynaliadwy; cael mynediad llawn i wybodaeth a chefnogaeth i chwarae rhan allweddol yn y cyflwyniad o strategaeth 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned'; datblygu ynni adnewyddadwy ar raddfa cymuned; cynnyrch bwyd lleol; cefnogi dim gwastraff; cefnogi menter gymdeithasol; meithrin a diogelu bioamrywiaeth a chefnogi gweithrediadau sy'n hybu lles.

Penderfynwyd argymell penodi Cynghorydd Viv Perry i fod yn Bencampwraig Hyfforddi ac iddi fod yn bresennol yn y digwyddiad hyfforddi cyntaf sydd i'w gynnal ym Mae Colwyn ar 14^{eg} Mawrth.

c. Adran Ynni a Newid Hinsawdd:

Cyflwynodd y Clerc neges e-bost gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy (CGGC) parthed lansio cyllid i grwpiau cymunedol i ddatblygu prosiectau ynni a benthyciadau tuag at ddefnyddio ynni yn effeithlon a chynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Penderfynwyd derbyn yr ohebiaeth a nodi'r dyddiadau cau sef 22 Rhagfyr 2011 a 20 Ionawr 2012.

ch. Grantiau Bach:

Fe nodwyd bod llythyrau o ddiolch wedi cael eu derbyn oddi wrth y canlynol oedd wedi derbyn grantiau bach:

i. Sgowtiaid Hen Golwyn
ii. Cymdeithas Gorawl Colwyn
iii. NWAMI

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.05 p.m.

…….. Cadeirydd